# Microsoft Teams: Defnyddio cyfieithu ar y pryd dynol

Canllawiau i Fynychwyr

Yn y cyfarfod rydych wedi cael gwahoddiad iddo, mae modd i chi wrando ar gyfieithiad ar y pryd. Mae hyn yn golygu y bydd cyfieithydd dynol ar gael i ddarparu cyfieithiad ar y pryd i Saesneg neu iaith arall, gan ddibynnu ar anghenion y cyfarfod.


Gallwch chi ymuno â'r cyfarfod gan ddefnyddio naill ai:

- Ap Microsoft Teams (ar gyfrifiadur neu ffôn symudol); neu
- Porwr gwe.


Os ydych chi'n defnyddio porwr gwe, defnyddiwch Microsoft Edge er mwyn osgoi anawsterau.

**Ymuno â'r cyfarfod**

Pan fyddwch chi'n ymuno â'r cyfarfod am y tro cyntaf, fe welwch chi flwch neidlen (pop-up) yn nodi 'Dewiswch yr iaith ddehongli (ry'n ni'n gwybod bod y pennawd yn y blwch Cymraeg yn anghywir ar hyn o bryd ac wedi gofyn i Microsoft ei gywiro).




Dewiswch eich iaith o'r rhestr sydd ar gael.




**Dewis yr iaith hoffech chi glywed**

Trefnydd y cyfarfod sy'n penderfynu pa ieithoedd y bydd cyfarfod yn cael eu cyfieithu iddyn nhw, ac ohonyn nhw.


Mae 'Sain Wreiddiol' bob tro ar gael fel dewis a dyma'r iaith sy'n cael ei siarad ar 'lawr' y cyfarfod. Os ydych chi'n deall holl ieithoedd y llawr, gallwch ddewis yr opsiwn yma. Fyddwch chi ddim yn clywed unrhyw gyfieithiad ar y pryd o gwbl os dewiswch chi 'Sain Wreiddiol.'

Os dewiswch chi iaith arall, er enghraifft Saesneg, yna fe glywch chi lais dynol yn cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg pan fydd iaith arall yn cael ei siarad.

Mae modd i chi gydbwyso lefel y sain hefyd a dewis pa mor uchel hoffech glywed y cyfieithydd dros lais y siaradwr gwreiddiol. Gallwch chi newid hwn nes ymlaen drwy glicio 'Mwy' (...) a 'Iaith a lleferydd', yna 'Iaith ddehongli'.

**Dewis eich iaith gan ddefnyddio'r ddewislen 'Mwy' (...)**

Os yw'r neidlen yn diflannu cyn i chi gael cyfle i ddewis eich iaith, ewch i'r bar offer, cliciwch ar 'Mwy' (...), wedyn 'Iaith a lleferydd', cliciwch 'Iaith ddehongli' a dewiswch iaith.




Byddwch bellach yn gallu clywed y cyfarfod a’r cyfieithiad.

## Sain gofodol

Cyn ymuno â chyfarfod sy’n defnyddio cyfieithu ar y pryd dynol, mae angen sicrhau bod sain gofodol wedi diffodd.

Bydd profiad gwell wrth ddiffodd sain gofodol lle dylech glywed y cyfieithydd yn glir.

I ddiffodd sain gofodol, gofynnwn i chi ddilyn y camau isod:

1) Cliciwch ar **Mwy** (...) yna **Gosodiadau**
2) Dewiswch **Osodiadau’r ddyfais**
3) **Diffoddwch sain gofodol** trwy **ddefnyddio'r togl**

## Problemau?

**Os na fydd modd i chi ddewis defnyddio cyfieithu ar y pryd** wrth ymuno trwy borwr, efallai nad yw’r porwr yn gydnaws â’r cyfleuster cyfieithu ar y pryd. Cofiwch ddefnyddio Microsoft Edge.

**Os ydych chi dal methu dewis cyfieithu ar y pryd**, gwiriwch nad ydych chi’n defnyddio cyfrif personol. Bellach, mae angen cyfrif gwaith i ddefnyddio cyfieithu ar y pryd dynol ar Teams. Rydyn ni’n gweithio gyda Microsoft i ail sefydlu’r cyfleuster hon ar gyfer cyfrifon personol cyn gynted â phosibl.

**Os ydych wedi dewis iaith ond yn methu clywed y cyfieithiad** pan fydd iaith arall yn cael ei siarad (Cymraeg, er enghraifft), gadewch y cyfarfod, dewch nôl, a dewis eich iaith cyfieithu ar y pryd eto.

**Os nad ydych yn gallu clywed unrhyw sain**, gwiriwch osodiadau'r ddyfais er mwyn sicrhau nad yw'r sain wedi'i dewi'n ddamweiniol. Gallwch hefyd geisio gadael ac ail-ymuno â'r cyfarfod.

**Os nad oes gennych yr opsiwn i ddewis cyfieithu ar y pryd**, rhowch neges i drefnydd y cyfarfod er mwyn gwirio a yw cyfieithu ar y pryd wedi'i drefnu. Os ydych chi'n defnyddio ap Teams (yn hytrach na phorwr), cofiwch sicrhau hefyd eich bod chi'n rhedeg fersiwn diweddaraf Teams.

**Os nad ydych yn gallu clywed y cyfieithydd ar y pryd**, sicrhewch nad ydynt wedi cael eu tewi. Gallwch wirio hyn drwy'r Cwarel Pobl. Os ydynt wedi cael eu tewi, bydd angen iddyn nhw ddad-dewi eu hunain. Nid yw trefnydd cyfarfod yn gallu dad-dewi mynychwyr.

**Os ydych yn gallu clywed iaith y llawr a'r cyfieithydd ar yr un lefel sain**, sicrhewch eich bod wedi diffodd Sain gofodol a gwiriwch gydbwysedd lefel y sain.